

## **Arolwg Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol.**

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi bod yn datblygu ein trefniadau newydd ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol i ymateb i newidiadau yn nhirlun a chyd-destun gwaith llywodraeth leol yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi cynnwys ac ymgynghori'n helaeth â'n rhanddeiliaid allweddol. Yn ystod tymhorau'r hydref a'r gwanwyn, cynhaliom ddau arolygiad peilot. Rydym wedi ystyried yr adborth o'r arolygiadau peilot ac, o ganlyniad, rydym wedi diwygio'r arweiniad a chynnig newid ein dulliau mewn ychydig agweddau ar ein proses arolygu.

Rydym yn awyddus i glywed eich barn am sut a beth rydym ni'n ei arolygu yn y sector llywodraeth leol, a phwrpas yr arolwg hwn yw casglu'ch adborth ar ein cynigion diweddaraf.

Yn yr ymgynghoriad hwn, hoffem glywed eich barn am:

- gynnwys yr arweiniad arolygu arfaethedig
- ein dull o arolygu meysydd gwasanaeth llywodraeth leol (Maes Arolygu 2: MA2)
- ein cynnig i beidio â defnyddio graddau crynodol ar gyfer y tri maes arolygu
- rhoi adborth ar ddiwedd ein harolygiadau.

## **Sut i gyflwyno'ch barn**

Mae dwy ffordd o gwblhau a chyflwyno'ch ymateb:

- 1 Llenwch yr holiadur ar-lein yn <https://www.estyn.llyw.cymru/ymgyngoriad>
- 2 Argraffwch y ddogfen hon a phostio'ch ymateb at:

Swyddog Ymgynghoriadau  
Estyn,  
Llys Angor,  
Heol Keen,  
Caerdydd  
CF24 5JW

Bydd yr ymgynghoriad ar agor o 27 Mehefin. Rhaid i bob ymateb drwy'r post gyrraedd Estyn erbyn y dyddiad cau (18 Gorffennaf).

## **Cyfrinachedd**

Bydd Estyn yn dal y wybodaeth a ddarperir. Ni chaiff ymatebion unigol eu rhannu gydag unrhyw un y tu allan i'r sefydliad. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i helpu i wella'r ffordd y mae Estyn yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Os byddwch yn datgelu pwy ydych chi yn eich ymateb, caiff hynny ei drin yn gyfrinachol.

## Gwybodaeth allweddol amdanoch chi

Dewiswch un opsiwn isod sy'n disgrifio orau ym mha rinwedd rydych chi'n ateb yr holiadur hwn.

Dysgwyr	Rhiant/gofalwr	Staff ALI neu gonsortia	Staff ysgol	Aelod o'r cyhoedd	Arall (rhowch fanylion): Undeb Llafur
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

## 1. Yr arweiniad arolygu

**Mae'r arweiniad arolygu yn amlinellu'r ffordd y bydd Estyn yn cynnal arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol (GALIL) o Fedi 2018 ymlaen.**

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cynnwys gwasanaethau addysg a ddarperir ar ran awdurdod lleol gan:

- gonsortium rhanbarthol neu bartneriaeth arall rhwng dau awdurdod lleol neu fwy
- awdurdod lleol arall
- sefydliad arall wedi'i gomisiynu gan yr awdurdod lleol (er enghraifft mudiad gwirfoddol neu gwmni preifat)

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r trefniadau arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol ac mae'n cynnig arweiniad i arolygwyr ar lunio barnau arolygu. Hefyd, mae'r arweiniad yn amlinellu sut bydd Estyn yn mynd ar drywydd awdurdodau lleol sy'n achosi pryder sylweddol.

Dyma ddolen i'r arweiniad ar ein gwefan: [Arweiniad drafft Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol](#)

### Fframwaith Arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol

#### 1 – Deilliannau

- 1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
- 1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
- 1.3 Lles ac agweddau at ddysgu

#### 2 – Ansawdd Gwasanaethau Addysg

- 2.1 Cymorth ar gyfer gwella ysgolion
- 2.2 Cymorth i ddysgwyr agored i niwed
- 2.3 Gwasanaethau cymorth addysg eraill

#### 3 – Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 3.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr

3.2 Hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

3.3 Dysgu proffesiynol

3.4 Diogelu

3.5 Defnyddio adnoddau

**Cwestiwn 1. I ba raddau yr ydych chi'n cytuno bod yr arweiniad yn adlewyrchu'r agweddau y mae angen i ni eu hystyried wrth arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol?**

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
	X				

Os hoffech ddarparu unrhyw fanylion neu awgrymiadau pellach ynghylch y cwmpas a'r manylion yn y meysydd arolygu, defnyddiwch y blwch isod.

Mae'r arweiniad yn glir ac yn gryno, ac yn rhwydd i'w ddilyn ar gyfer arolygwyr a'r sawl sy'n derbyn arolygiad fel ei gilydd. Mae'r cynnwys yn ymddangos yn gwbl resymol, a rhesymegol.

Croesawn y ffaith fod arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn cwmpasu'r consortia rhanbarthol, neu bartneriaethau/sefydliadau perthnasol eraill. Gan fod Awdurdodau Lleol yn dirprwyo cymaint o'r cyfrifoldeb (a chyllid) dros welliant i'r consortia erbyn hyn, mae'n hanfodol fod y sgrwtini yn ymestyn i'r lefel honno.

Mae croeso mawr yn ogystal i'r cydweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru, a gydag Arolygiaethau perthnasol eraill, a hynny er mwyn (i) sicrhau trylwyredd a (ii) osgoi dyblygu.

Cymeradwywn y rhestr o weithgarwch arolygu y gellid ei ddefnyddio fel gwybodaeth gyd-destunol ehangach ar gyfer yr arolygiad.

Mae'r pwyslais ar hunanarfarnu fel pwynt cychwyn yn bwysig iawn, ac yn gydnaws â chyfeiriad diwygiadau eraill o fewn y system addysg ar hyn o bryd. Croesawn yn fawr y pwyslais ar hunanarfarnu fel proses barhaol, a'r arweiniad clir iawn i beidio â pharatoi adroddiad hunanarfarnu'n benodol ar gyfer yr arolygiad.

Mewn perthynas â'r Arolwg Dinasyddion, teimlwn y dylid ei ddosbarthu'n rhagweithiol at nifer o grwpiau o randdeiliaid allweddol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ohono drwy sianeli cyfathrebu arferol Estyn a'r awdurdodau lleol. Awgrymwn yn gryf y dylid cynnwys undebau llafur sy'n cynrychioli'r gweithluoedd perthnasol ar y rhestr.

Unwaith eto, yng nghyd-destun yr Ymweliad Rhagarweiniol, argymhellwn ychwanegu'r undebau llafur perthnasol i'r rhestr. Mae'r undebau'n gallu cynrychioli llais y gweithluoedd perthnasol, ac mae rhai materion pwysig nad yw'n debygol y byddai unrhyw randdeiliaid eraill yn eu codi. Dadleuwn felly fod llais yr undebau

llafur, fel mudiadau sy'n cynrychioli'r gweithlu, yn anhepgorol i'w gynnwys yn y trafodaethau cychwynnol, yn ogystal â rhannau eraill o'r broses (gweler isod).

## 2. Maes Arolygu 2

Mae maes arolygu 2 yn canolbwyntio ar y gwasanaethau addysg a ddarperir gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid. Mae tair prif elfen i'r maes arolygu hwn:

### Maes arolygu 2 – Gwasanaethau Addysg

Cymorth ar gyfer gwella ysgolion

Cymorth i ddysgwyr agored i niwed

Gwasanaethau cymorth addysg eraill

Mae maes arolygu 2 y fframwaith yn amlinellu cwmpas y gwasanaethau y gellid eu harolygu yn ystod arolygiad. Fel rhan o bob proses arolygu, byddwn yn datblygu cyfres o gwestiynau arolygu lleol, a fydd yn adlewyrchu prif flaenoriaethau'r awdurdod lleol ar gyfer ei wasanaethau addysg. Byddwn yn defnyddio cynllun strategol a chynllun gwasanaeth yr awdurdod lleol i amlygu'r cwestiynau lleol mwyaf perthnasol ar gyfer yr arolygiad. Mae'n ofynnol i arolygwyr arfarnu gwasanaethau y mae'r cwestiynau hyn yn eu cwmpasu ac adrodd ar bob cwestiwn ar wahân yn yr adroddiad.

### Cwestiwn 2: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Estyn ganolbwyntio ar 'gwestiynau lleol' er mwyn arfarnu agweddau ar faes arolygu 2?

Cytuno'n gryf	<b>Cytuno</b> <b>X</b>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
---------------	---------------------------	---------------------------------	-----------	------------------	----------------

Os hoffech ddarparu unrhyw fanylion neu awgrymiadau ynghylch ymagwedd Estyn at faes arolygu 2, defnyddiwch y blwch isod.

Mae'r pwyslais ar gwestiynau arolygu lleol yn briodol tra bod digon o dystiolaeth i gefnogi'r trywyddion a ddewisir. Croesawn y ffaith fod cyfle gan yr Awdurdod Lleol i drafod y rhain, ond mai arolygwyr sy'n eu pennu.

Os yw'r cwestiynau wedi'u seilio ar flaenoriaethau strategol yr awdurdod dan sylw, mae angen mynd yn ôl un cam a sicrhau fod y broses o gynllunio strategol yn un gadarn; hynny yw, sicrhau bod y blaenoriaethau a bennwyd yn rhai y gellid eu cyfiawnhau o fewn yr amgylchiadau. Ni fyddem am weld arolygwyr yn cael eu clymu i arolygu blaenoriaethau nad oeddent yn rhai 'cywir' neu ddibynadwy i gychwyn. Bydd angen sicrhau rhyw fath o gydbwysedd rhwng blaenoriaethau sydd wir yn rhai lleol a phenodol i'r cyd-destun, a blaenoriaethau sy'n adlewyrchu datblygiadau cenedlaethol e.e. y Gymraeg mewn addysg (gan gynnwys llunio a gweithredu'r Cynlluniau Strategol), ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (yn sgil y ddeddfwriaeth newydd a'r rhaglen drawsnewid).

Ar y cyfan, mae UCAC o'r farn bod y fethodoleg hon yn debygol o arwain at arolygiadau ac adroddiadau llawer fwy 'unigol', perthnasol ac adeiladol i'r darparwyr dan sylw, gan osgoi canfyddiadau rhy gyffredinol.

### 3. Barnau arolygu

#### Graddau a barnau crynodol

Rydym yn cynnig peidio â defnyddio graddau crynodol ar gyfer y tri maes arolygu. Rydym yn cydnabod bod nifer o fuddion i raddau crynodol ond, ar hyn o bryd, rydym yn cynnig y bydd ffocws cliriach ar yr arfarniadau yn y testun yn galluogi'r awdurdod lleol i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella. Bydd yr arfarniadau yn y testun yn ein galluogi i nodi arfer ragorol ac effeithiol ynghyd ag arfer wannach.

#### Cwestiwn 3a: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i beidio â chael graddau crynodol ar gyfer y tri maes arolygu?

Cytuno'n gryf	<b>Cytuno</b> <b>X</b>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
---------------	---------------------------	---------------------------------	-----------	------------------	----------------

Os hoffech ddarparu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y cynnig hwn, defnyddiwch y blwch isod.

Cytuna UCAC â'r cynnig hwn. Mae'n symud oddi wrth ddulliau sy'n gorsymleiddio, tuag at system â mwy o arlliw sy'n rhoi darlun llawer fwy cyflawn a chywir. Mae'n gwbl dderbyniol i ddisgwyl i bobl ddarllen paragraff(au) cyfan am farn yn hytrach na dibynnu ar radd grynodol gor-sympl yn unig. Mae'r dull a gynigir yn cyd-fynd ag argymhellion yr Athro Graham Donaldson yn ei adroddiad 'Arolygiaeth Dysgu' diweddar, yn ogystal ag â chyfeiriad diwygiadau i systemau atebolrwydd byd addysg yn fwy cyffredinol.

Rydym yn cynnig defnyddio gradd grynodol i ddynodi os ydy'r awdurdod lleol yn peri pryder difrifol ai peidio.

#### Cwestiwn 3b A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gael gradd grynodol i ddynodi os ydy'r awdurdod lleol yn peri pryder difrifol ai peidio?

Cytuno'n gryf	<b>Cytuno</b> <b>X</b>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
---------------	---------------------------	---------------------------------	-----------	------------------	----------------

Os hoffech ddarparu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y cynnig hwn, defnyddiwch y blwch isod.

Rydym yn cynnig y rhesymau canlynol dros benderfynu os ydy'r awdurdod lleol yn peri pryder difrifol:

- Cyfran uchel o ddysgwyr yn tangyflawni tros gyfnod neu gryn ddirywiad ym mherfformiad dysgwyr tros gyfnod
- Cyfran uchel o ysgolion a darparwyr addysgol eraill mewn categorïau statudol
- Pryder difrifol o ran diogelu
- Methiant i fynd i'r afael â'r diffygion a adnabuwyd o'r arolygiadau blaenorol
- Gwendidau pwysig yn yr uwch arweinyddiaeth
- Unrhyw bryder eraill sy'n risg arwyddocaol i les a chyflawniad disgyblion a phobl ifanc

**Cwestiwn 3c. A ydych chi'n cytuno â'r meini prawf ar gyfer penderfynu os ydy'r awdurdod lleol yn peri pryder difrifol?**

Cytuno'n gryf	Cytuno	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno X</b>	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
---------------	--------	--	-----------	------------------	----------------

Os hoffech ddarparu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y cynnig hwn, defnyddiwch y blwch isod.

Teimlwn y gall y meini prawf hyn gwmpasu'r rhan fwyaf o'r prif bryderon. Nid ydym yn sicr a yw 'Gwendidau pwysig yn yr uwch arweinyddiaeth' yn cwmpasu materion sy'n ymwneud â chyflogaeth, adnoddau dynol a lles staff y gwasanaeth addysg. Gwyddom mai deilliannau i ddysgwyr yw prif ffocws arolygu. Fodd bynnag, dadleuwn fod materion sy'n ymwneud â threfniadaeth gyflogaeth a lles staff yn effeithio, o leiaf yn anuniongyrchol, ar ddysgwyr. Os oes patrwm o gamweithredu neu gamweinyddu yn y meysydd hyn, gallant fod yn ddigon dylanwadol i gael eu cynnwys yn y rhestr o resymau dros farnu bod awdurdodau lleol yn peri pryder difrifol. Barn UCAC felly yw ei fod yn bwysig sicrhau bod y materion hyn yn cael eu cynnwys dan un o'r penawdau, neu mewn pennawd ar wahân.

## 4. Adborth

### Adborth ffurfiol

Ar ddiwedd y rhan o'r arolygiad ar y safle, bydd y tîm yn rhoi adborth ar lafar i'r uwch arweinwyr a'r rheolwyr. Fel arfer, dylai'r rhai sy'n bresennol ar gyfer yr adborth gynnwys y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg a'r dirprwy gyfarwyddwyr, arweinydd y cyngor, arweinydd y maes yn y cabinet, a chadeirydd y pwyllgor craffu. Dylai'r adborth gyfleu'r prif farnau a'r rhesymau drostynt, ar gyfer y tri maes arolygu.

Gwyddom nad yw'r broses adborth ar ddiwedd yr arolygiad mor effeithiol ag yr hoffem iddi fod. Rydym wrthi'n ystyried ffyrdd eraill o adrodd canfyddiadau arolygu yn ôl a byddem yn gwerthfawrogi'ch barn am sut y gallem ni wneud hyn yn fwy effeithiol.

A fydddech cystal ag ystyried ac awgrymu sut y gallem fod yn rhannu canfyddiadau arolygu ar ddiwedd yr arolygiad gyda'r uwch arweinwyr a'r rheolwyr, a rhanddeiliaid ehangach o bosibl. Defnyddiwch y blwch isod:

Mae UCAC o'r farn y byddai'n fuddiol i rannu'r adborth gyda'r undebau llafur perthnasol. Mae gan yr undebau rôl bwysig o ran craffu ar weithrediadau'r Awdurdodau Lleol, ac o ran herio pan fydd gwendidau. Gallant chwarae rôl bwysig yn y daith tuag at wella.

## 5. Unrhyw sylwadau eraill

Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill yn ymwneud â'r broses arolygu, defnyddiwch y blwch isod:

Hoffem weld mwy o bwyslais, mwy penodol ar faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth, adnoddau dynol a lles staff y gwasanaeth addysg. Mae cysylltiad agos rhwng deilliannau dysgwyr a'r materion hyn gan fod angen gwasanaethau addysg ar bob lefel sydd wedi'u staffio'n briodol, a gan bobl sydd – gymaint ag sy'n bosib – yn hapus yn eu gwaith ac yn eu perthynas gyda'u cyflogwr.

Yn sgil y pwyslais diweddar ar geisio lleihau llwyth gwaith, ystyriwn y byddai'n bwysig gweld cyfeiriad at hynny yn rhywle yn yr arweiniad (h.y. i ba raddau y mae Awdurdodau Lleol yn hyrwyddo'r ymgais i leihau llwyth gwaith neu'n arddel gweithdrefnau nad ydynt yn ychwanegu'n ddiangen at lwyth gwaith), fel maes y dylid rhoi sylw iddo, o bosib dan Faes 3: Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

Croesawn y pwyslais dan '3.5 Defnyddio adnoddau' ar reoli ansawdd a chost trefniadau consortiwm rhanbarthol, gan gynnwys effeithiolrwydd prosesau 'dwyn i gyfrif' a 'gwerth am arian'. Efallai y dylid nodi yn rhywle yr angen i Awdurdodau Lleol fod yn monitro cysondeb gwaith y consortia (a'r Ymgynghorwyr Her yn benodol) o ran eu dulliau gweithredu, ac a ydynt yn parchu ymrwymadau o ran lleihau llwyth gwaith, ac osgoi dyblygu gofynion.

Diolch yn fawr am roi eich barn.